

## POLISI ANIFEILIAID ANWES

## **CYNNWYS**

- 1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU**
- 2. PWRPAS**
- 3. SGÔP**
- 4. CYFRIFOLDEBAU**
- 5. MANYLION POLISI**
- 6. FFACTOR RISG**
- 7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
- 8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU**
- 9. CYFEIRIADAU**
- 10. COFNODION**
- 11. ADOLYGU**

---

**1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU**

Mater	Disgrifiad byr o'r Rheswm am Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi
	Adolygiad o'r polisi presennol dyddiedig 18 <sup>fed</sup> Mawrth 2010		

## 2. PWRPAS

- 2.1 Pwrpas y polisi hwn yw sefydlu sut y bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn rheoli anifeiliaid anwes yng nghartrefi ein tenantiaid.
- 2.2 Mae CCG yn cydnabod y gall cadw anifeiliaid anwes yn fuddiol i denantiaid gan gefnogi cadw anifeiliaid anwes mewn modd cyfrifol. Serch hynny, mae'r polisi hwn a gweithdrefnau perthnasol mewn grym i atal perchnogaeth anghyfrifol o anifeiliaid anwes a allai darfu ar breswylwyr eraill neu achosi annifyrrwch a/neu dorri amodau'r denantiaeth.

## 3. SGÔP

- 3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl denantiaid a thenantiaid arfaethedig eiddo sy'n perthyn i CCG.
- 3.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob anifail anwes, anifeiliaid ac adar domestig.

## 4. CYFRIFOLDEBAU

- 4.1 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cwsmer a Chymunedau yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol a bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol yn y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

## 5. MANYLION POLISI

- 5.1 Mae CCG angen i'w denantiaid fod yn berchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol.
- 5.2 Mae CCG yn cynghori y dylai tenantiaid ystyried y cwestiynau a nodir yn Atodiad 1 cyn penderfynu cadw anifail anwes neu beidio.
- 5.3 Mae'n ofynnol i denantiaid arfaethedig nodi ar eu ffurflen gais tai fanylion unrhyw anifeiliaid anwes/anifeiliaid maent yn berchen arnynt. Ni fyddai hyn yn effeithio'r cais fel arfer cyn belled ag y gall yr ymgeisydd ddangos perchnogaeth gyfrifol o anifail anwes. Trafodir ac asesir y mater yn ystod y broses ddyrannu.
- 5.4 Mae CCG yn cydnabod bod rhai tenantiaid angen cymorth neu angen cŵn tywys i'w cynorthwyo wrth fyw'n annibynnol
- 5.5 Gall CCG ddileu unrhyw ganiatâd a roddwyd yn flaenorol os yw'r anifail/anifail anwes yn achosi niwsans, annifyrrwch neu aflonyddwch, os oes gormod o anifeiliaid o ran nifer yn cael eu cadw ar un adeg neu os nad yw'r tenantiaid yn berchnogion anifeiliaid/anifeiliaid anwes cyfrifol.
- 5.6 Mae amodau'r denantiaeth yn cael eu torri os bydd tenantiaid CCG yn caniatáu i anifeiliaid anwes ddifrodi eiddo CCG neu achosi niwsans, annifyrwch neu aflonyddwch ar unrhyw un yn y gymdogaeth.
- 5.7 Rhaid i bob anifail anwes/anifeiliaid fod dan reolaeth preswlydd yr eiddo bob amser.

- 5.8 Os yw anifail/anifail anwes yn baeddu ar unrhyw eiddo neu fan gymunol mae CCG yn disgwyl i'r perchennog ymddwyn yn gyfrifol drwy gasglu'r baw yn syth, gan gael gwared ag unrhyw lanast yn briodol a golchi a glanhau'r llecyn os bydd angen.
- 5.9 Ni ddylid caniatáu i unrhyw anifail/anifail anwes achosi niwsans, annifyrrwch neu aflonyddwch i breswylwyr eraill, staff CCG, contractwyr neu ymwelwyr.
- 5.10 Ni chaniateir adeiladu unrhyw strwythur i gadw anifail, yn fewnol neu'n allanol heb ganiatâd ysgrifenedig CCG yn unol â Pholisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid.
- 5.11 Ni chaniateir i denantiaid CCG ddefnyddio eu cartref i redeg busnes oddi yno yn ymwneud â bridio neu gadw anifeiliaid neu adar neu redeg busnes cenel preswyl.
- 5.12 Rhaid i denantiaid gwrdd ag anghenion gofal a lles eu hanifail anwes. Gyda chathod a chŵn mae hyn yn cynnwys triniaeth atal llyngyr a chwain yn unol â chanllawiau'r milfeddyg. Yn achlysurol gallwn ofyn am dystiolaeth bod y triniaethau hyn wedi eu rhoi.
- 5.13 Anogir tenantiaid i roi microsglodyn adnabod yn eu cŵn a'u cathod.
- 5.14 Rhaid cael blwch toiled i gathod (o leiaf un i bob cath) a dylid eu hannog i'w defnyddio i leihau'r broblem o gathod yn baeddu yng ngerddi preswylwyr eraill.
- 5.15 Ni ddylid gadael carthion/gweddillion blychau toiled cathod ar lwybrau cymunol ac ni ddylai cathod grwydro o amgylch ardaloedd cymunol.
- 5.16 Dylai adar mewn cewyll fedru ymestyn eu hadennydd i bob cyfeiriad a chyda digon o le i sefyll a chlwydo.
- 5.17 Ni chaniateir cadw'r anifeiliaid canlynol:
- Anifeiliaid fferm, er enghraifft defaid, wŷn bach, geifr, moch, gwartheg, ceffylau, merlod, ieir, ffowlyn a hwyaid (mewn rhai achosion eithriadol serch hynny, gellir cael caniatâd mi gadw ieir a hwyaid os yw'r eiddo'n addas ac os nad yw'r anifeiliaid yn creu annifyrrwch neu ddifrod i'r eiddo gan gynnwys yr ardd).
  - Anifeiliaid sydd wedi eu cofrestru dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 gan gynnwys er enghraifft mathau neilltuol o nadroedd gwenwynig, mathau neilltuol o bryfaid cop ac ymlusgiaid gan gynnwys aligatorod a chrocodeilod.
  - Unrhyw gi a nodwyd dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991, gan gynnwys Daeargi Tarw Pydew, Tosa Siapaneaidd, Dogo Ariannin, Fila Brazeliero.
  - Rhywogaethau prin, megis rhai mathau o adar ysglyfaethus
  - Gellir cael gwybodaeth gyfredol ar Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra).
- 5.18 Mae enghreifftiau o niwsans, annifyrrwch ac aflonyddwch gan anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn cynnwys:
- crwydro a heb fod dan ofal y perchennog

- 
- anifeiliaid yn baeddu mewn manau cymunol a/neu erddi a pherchnogion yn methu â chlirio'r llanast yn foddhaol.
  - Storio anghyfrifol o fwyd anifail (e.e. storio blêr/anaddas a/neu yn denu fermin)
  - Anifeiliaid yn tarfu drwy wneud sŵn
  - Perchnogion anghyfrifol yn methu â chlirio'r llanast yn syth
  - Anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn atal staff neu gontractwyr CCG rhag gwneud eu gwaith
  - Ymddygiad bygythiol neu beryglus
  - Gormod o anifeiliaid o fewn un cartref
  - Arogl annymunol gan anifeiliaid anwes
  - Anifeiliaid ymosodol
  - Tenantiaid yn ymddwyn yn anghyfrifol wrth fwydo a denu adar gwyllt a/neu fermin (e.e. drwy fwydo gwyllanod o fflatiau)
- 5.19 Bydd CCG yn gweithio gydag asiantaethau perthnasol eraill i ddelio ag achosion o greulondeb i anifeiliaid neu gamdrin anifeiliaid yn ein heiddo.
- Os bydd staff CCG neu gynrychiolydd yn gweld neu'n amau achos o greulondeb neu gamdrin anifail rhaid iddynt adrodd y digwyddiad i'r RSPCA neu RSPB.
  - Os bydd CCG yn derbyn unrhyw wybodaeth gan yr RSPCA / RSPB ynglŷn â rhybuddiad neu gollfarn am greulondeb neu gamdrin anifeiliaid gallwn gymryd camau pellach.
  - Rhaid i denantiaid CCG gydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a gyflwynodd ddyletswydd i ofalu ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n cadw anifail, i sicrhau eu bod yn gofalu'n iawn am yr anifail hwnnw. Mae hyn yn cynnwys:
    - Deiet cywir (bwyd a diod)
    - Diogelwch rhag poen, dioddefaint, anaf neu afiechyd
    - Y gallu i ymddwyn yn naturiol
    - Amgylchedd addas i fyw ynddo, gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt.

## **6. FFACTOR RISG**

- 6.1 Y risg o CCG beidio â chael polisi eglur ar anifeiliaid anwes/anifeiliaid sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a'r arfer orau, gan arwain at golli enw da a heriau cyfreithiol drud o bosib.
- 6.2 Y risg bod CCG yn methu â darparu canllaw eglur ar gyfer perchnogion anifeiliaid anwes anifeiliaid cyfrifol o fewn eu cartrefi.

## **7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- 7.1 Mae CCG yn cydnabod yr angen am boblogaeth amrywiol ac yn gweithredu bob amser o fewn sgôp ei Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun.
- 7.2 Bydd CCG yn sicrhau y bydd staff yn ystyried anghenion unigol ein tenantiaid waeth beth fo'r oed, rhywedd, hil, dosbarth, diwylliant, rhywioldeb neu anabledd, wrth asesu ceisiadau am anifeiliaid anwes neu ymateb i unrhyw gwynion.

## **8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU**

### **9. CYFEIRIADAU**

- 9.1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976
- 9.2 Deddf Cŵn Peryglus 1991
- 9.3 Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- 9.4 Polisi Anifeiliaid Anwes CCG
- 9.5 Polisi Gwelliannau ac Addasiadau CCG
- 9.6 Deddf Tai 1985 ac 1988
- 9.7 Cytundeb Tenantiaeth

### **10. COFNODION**

### **11. ADOLYGU**

- 11.1 Adolygir y weithdrefn hon bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheoliadol, arfer da neu newidiadau mewn polisi arall perthnasol gan CCG.

## **Atodiad 1**

Mae CCG yn cydnabod y gall cadw anifeiliaid anwes yn fuddiol i denantiaid gan gefnogi cadw anifeiliaid anwes mewn modd cyfrifol. Serch hynny, gall perchnogaeth anghyfrifol o anifeiliaid anwes achosi dioddefaint i anifeiliaid anwes a tharfu ar breswylwyr eraill neu achosi annifyrrwch a niwsans.

### **Bod yn berchennog anifail anwes / anifail cyfrifol**

Po fwyaf o ystyriaeth a rowch cyn bod yn berchennog ar anifeiliaid anwes, gorau oll. Mae'n anodd iawn ailgartrefu anifail anwes unwaith y byddwch wedi closio ato'n emosiynol.

Cyn penderfynu cadw anifail anwes mae CCG yn gofyn i chi ystyried y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda:

**1. A yw'r anifail anwes yn addas i'ch ffordd o fyw ac amgylchiadau'r teulu?**

A ydych chi allan yn aml, a oes gennych chi blant ifanc yn y cartref?

**2. A yw eich adeilad yn addas?**

A oes gennych chi fynediad hawdd at ardd, a ydych chi'n byw ger ffordd brysur, a yw fflat yn addas ar gyfer cadw'r math o anifail anwes sydd gennych dan sylw?

**3. Beth fydd cost hyn i gyd?**

Gallwch gyllidebu ar gyfer rhai eitemau, er enghraifft cost gychwynnol o brynu'r anifail anwes, offer a chostau parhaus megis bwyd a gwely. Beth am y costau annisgwyl megis biliau'r milfeddyg?

**4. Materion iechyd – a oes milfeddyg lleol all ofalu am eich anifail anwes?**

Mae hyn yn neilltuol bwysig os oes gennych chi anifail anwes anarferol neu egsotig. A oes angen brechiadau rheolaidd?

**5. A ydych chi am yswirio eich anifail anwes a/neu roi microsglodyn ynddo?**

Mae CCG yn wir annog hyn ond mae cost yn gysylltiedig â'r ddau.

**6. Beth fydd yn digwydd i'r anifail anwes os ydych i ffwrdd o'ch cartref, ar wyliau er enghraifft neu i ffwrdd o herwydd salwch annisgwyl?**

A oes gennych chi ffrindiau neu deulu sy'n fodlon ac yn medru gofalu am eich anifail anwes os nad ydych gartref?

**7. Rheoli poblogaeth**

Os ydych yn bwriadu cadw cath gofynnwn i chi ei hysbaddu ac argymhellwn hyn ar gyfer cŵn ac anifeiliaid anwes eraill hefyd. Mae CCG yn ystyried gor-boblogaeth o anifeiliaid mewn cartref yn fater o darfu ac annifyrrwch.



---

**8. A fydd eich dewis o anifail anwes yn debygol o darfu ac achosi annifyrrwch a niwsans i'ch cymdogion?**

Mae'r mwyafrif ohonom yn dymuno byw'n gytun â'n cymdogion – gall fod yn syniad da cael sgwrs gyda nhw cyn i chi wneud y penderfyniad olaf ynglŷn â chadw anifail anwes / anifail yn eich cartref.

**9. A oes gennych chi ddigon o ymroddiad i ofalu am eich anifail anwes?**

Er enghraifft:

- a oes gennych chi gynllun ar gyfer sut y byddwch yn gofalu am eich anifail anwes a'i reoli?
- rhaid mynd â chŵn am dro bob dydd ar dennyn – a yw'r amser a'r ymroddiad gennych i wneud hyn?
- ni ddylid gadael cŵn i gyfarth yn y tŷ neu'r ardd drwy'r dydd gan darfu ar bobl – ystyriwch sut y byddwch yn delio ag unrhyw broblemau neu gwynion pe byddai rhai.
- rhaid gofalu'n iawn am anifeiliaid ac mae hyn yn cymryd amser, ymdrech a chost.

Cyngor CCG yw i chi ystyried yr uchod o ddifrif cyn penderfynu cadw anifail anwes neu anifail yn eich cartref.